| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cyngor |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 23 Chwefror 2016 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill<br>Jamie Groves - Pennaeth Cyllid, Asedau a Thai |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Tom Booty - Rheolwr Rhaglen |
| **Teitl:** | **Strategaeth Gaffael a Rheolau'r Weithdrefn Gontractau** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Strategaeth Gaffael newydd a Rheolau'r Weithdrefn Gontractau diwygiedig (CPRs) i'r Cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae angen penderfyniad i gymeradwyo'r Strategaeth Gaffael newydd a'r CPRs diwygiedig.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Yr argymhelliad yw bod y Cyngor yn:

- Cymeradwyo a mabwysiadu'r Strategaeth Gaffael
- Cymeradwyo a mabwysiadu'r CPRs diwygiedig

Bydd y ddwy ddogfen yn "mynd yn fyw" ar 1 Ebrill 2016.

## 4. Manylion yr Adroddiad

### Y Strategaeth Gaffael

Mae'r Strategaeth Gaffael newydd (daeth yr un blaenorol i ben yn 2012) wedi cael ei datblygu yn dilyn ymgynghori helaeth (gweler adran 8). Mae'n dilyn fformat dogfennau strategaeth eraill y Cyngor yn fras ac wedi'i chynllunio i fod yn fyr, ar lefel uchel, ond yn gyraeddadwy. Mae'r strategaeth wedi'i hategu gan saith egwyddor allweddol a fwriedir i arwain ein holl weithgarwch caffael, sy'n cynnwys ein dyletswyddau o dan Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a gofyniad i sicrhau bod sylw dyledus yn cael ei roi i'r holl benderfyniadau prynu i ffyniant economaidd lleol. Mae manylion llawn y saith egwyddor i'w gweld yn y strategaeth atodedig (atodiad A).

Mae'r strategaeth yn rhoi manylion dau ganlyniad:

**CANLYNIAD 1**: Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cyflawni gwerth am arian o'r nwyddau, y gwasanaethau a'r gwaith y mae'n eu caffael; a byddwn yn gweithio i gyflawni'r canlyniad hwn drwy:

- Ystyried gwahanol fodelau darparu;
- Parhau i adolygu a symleiddio ein prosesau;
- Gwneud gwell defnydd o dechnoleg;
- Gwella ein gwaith o reoli contractau; a

- Buddsoddi mewn pobl a sgiliau.

**CANLYNIAD 2**: Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gwella’r cyfraniad y mae ei weithgarwch caffael yn ei gael ar yr economi leol, a byddwn yn gweithio i gyflawni'r canlyniad hwn drwy:

- Weithio'n rhagweithiol ar ddatblygu cyflenwyr lleol;
- Datblygu ymagweddau newydd at sut rydym yn strwythuro ein cynigion i'r farchnad; a
- Cyflawni mwy o fuddion gwell i’r gymuned.

Mae'r strategaeth hefyd yn rhoi manylion cyfres o ddangosyddion a mesurau perfformiad lefel uchel yn erbyn y canlyniadau hyn, a fydd yn ein galluogi i fesur cynnydd ac effaith ein gweithgareddau caffael.

### Rheolau’r Weithdrefn Gontractau

Mae'r CPRs diwygiedig (gweler atodiad B) bellach yn dra gwahanol o ran arddull a chynnwys ers y fersiwn blaenorol. Erbyn hyn, mae mwy o ffocws ar y "gynulleidfa", a cheisir cyflwyno rheoliadau mewn iaith symlach ar gyfer swyddogion sy'n ymgymryd â gwaith caffael, a lle bo'n berthnasol, egluro'r hyn sydd angen ei wneud, gan bwy, a pha gofnod y dylid ei gadw. Caiff y ddogfen ei rhannu'n adrannau er mwyn ceisio creu ymagwedd "o'r crud i'r bedd" at weithgarwch caffael, ac mae llawer mwy o bwyslais ar faes allweddol o wendid - y cyfnod cynllunio a pharatoi.

Mae'r CPRs diwygiedig hefyd yn adlewyrchu:

- Newidiadau mewn deddfwriaeth yn dilyn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 a ddaeth i rym ym mis Chwefror 2015
- Ein symudiad i gaffael electronig, a chael gwared ar y dewis i barhau gyda chaffael ar bapur ar ôl 1 Ebrill 2016
- Y Safonau Iaith Gymraeg newydd
- Ein rhwymedigaethau o dan Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Un o'r newidiadau allweddol yw proses awdurdodi ymlaen llaw, lle caiff y strategaeth gaffael ei chymeradwyo cyn mynd i'r farchnad, yn hytrach na’i seilio’n ôl-weithredol ar y dyfynbrisiau/tendrau a geir. Bwriad y newid hwn yw:

- Annog proses fwy trylwyr a thrwyadl o gynllunio’r gwaith caffael
- Galluogi gwell proses gynllunio adnoddau er mwyn sicrhau bod digon o gapasiti yn cael ei ddyrannu i'r ymarfer caffael
- Rhoi mwy o bwyslais ar wasanaethau i feddwl am y gofynion
- Cyflymu'r broses yn y cyfnod pwysig o dderbyn dyfynbris/tendr

Mae'r broses gymeradwyo ar gyfer yr awdurdodiad hwn ymlaen llaw, ynghyd â phenderfyniadau eraill caffael (e.e. eithriadau, addasiadau contract, ac ati) wedi cael eu datblygu gyda'r Gwasanaethau Cyfreithiol i alinio gyda'r diwygiadau arfaethedig i'r cynllun dirprwyo Aelod fel a ganlyn:

- **Hyd at £25,000** – Penderfyniad y rheolwr/Pennaeth Gwasanaeth (PG)

- **£25,000 i £1,000,000** - PG, Adran 151 a'r Swyddog Monitro
- **£1,000,001 i £2,000,000** – penderfyniad a gaiff ei ddirprwyo i Aelod Cabinet
- **Dros £2,000,000** - penderfyniad y Cabinet

**Os caiff ei gymeradwyo, bydd y Strategaeth Gaffael a'r CPRs yn cael eu cynhyrchu mewn fformat dwyieithog, wedi'u dylunio'n well, a fydd ar gael ar wefan y Cyngor.** Mae amrywiaeth o ddogfennau canllaw - ar gyfer swyddogion mewnol a chyflenwyr allanol - yn cael eu datblygu ar hyn o bryd, i fod ochr yn ochr â'r Strategaeth a'r CPRs, a'r nod yw cael y gyfres hon o ddogfennau cyfarwyddyd ar gael ar 1 Ebrill 2016 pan fydd y Strategaeth a'r CPR's yn "mynd yn fyw". Mae cyfres o ddigwyddiadau hyfforddi a gweithdai hefyd yn cael eu datblygu i sicrhau bod staff a chyflenwyr yn ymwybodol o ymagwedd newydd y Cyngor i gaffael ac yn gymwys i ddelio â hyn.

### 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r strategaeth a'r CPR's yn ymwneud â blaenoriaethau o fewn y Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol ac mewn perthynas â hyn, bydd yn mynd i'r afael â'r ddau ddarn penodol o waith yn y Cynllun Corfforaethol:

- Sut mae'r Cyngor yn gweithio gyda chyflenwyr; a
- Manteision Cymunedol

### 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Y brif gost ariannol o gyflawni'r Strategaeth Gaffael a'r CPR's diwygiedig yw penodi Rheolwr Rhaglen am 12 mis i arwain ar y gwaith hwn, er bod y gost hon wedi ei chynnwys o fewn adnoddau'r gwasanaeth presennol. Bydd costau'r dyfodol yn parhau i gael eu cynnwys o fewn adnoddau'r gwasanaeth presennol, ond mae adolygiad o strwythur presennol y Tîm Caffael Corfforaethol ar y gweill ar hyn o bryd er mwyn sicrhau y caiff strwythur newydd ei roi ar waith a fydd yn creu'r strwythur a'r capasiti angenrheidiol i gyflawni'r strategaeth a'r prosesau CPR.

O ran gwasanaethau eraill, bydd y Strategaeth a'r CPR's yn gofyn iddynt adolygu eu trefniadau presennol ar gyfer gweithgarwch caffael, ac ystyried yr hyn y gall fod angen ei newid er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu at gyflawni'r strategaeth ac yn cydymffurfio â'r CPR's newydd. Bydd y gwasanaethau'n cael eu cefnogi i wneud hyn gan y Tîm Caffael Corfforaethol a thrwy ystod o ddigwyddiadau hyfforddi a gweithdai wedi'u cynllunio i gefnogi staff.

### 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai fod templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi a'i atodi i'r adroddiad.

Mae'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar y Strategaeth Gaffael newydd a'r CPR's diwygiedig wedi'u hatodi yn yr adroddiad hwn. Ar y cyfan, ystyrir y bydd y strategaeth a'r CPR's yn cael effaith niwtral.

### 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Mae gwaith datblygu'r Strategaeth Gaffael newydd a'r CPR's diwygiedig wedi cael ei arwain gan y Bwrdd Trawsnewid Caffael mewnol y mae ei aelodaeth yn cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Maent hefyd wedi bod yn destun proses ymgynghori mewnol ac allanol gynhwysfawr, gan gynnwys:

- Cyfranogiad parhaus yn natblygiad gan y Ffederasiwn Busnesau Bach, Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Busnes Cymru;
- Cyflwyniadau ac adroddiadau i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, Bwrdd Uchelgais Economaidd a Chymunedol, Uwch Dîm Arweinyddiaeth a Briffio Cabinet;
- Cyfarfod gyda holl arweinwyr y grwpiau gwleidyddol;
- Cyfarfodydd rheolaidd un i un gyda rhanddeiliaid mewnol allweddol megis Cyfreithiol, Cyllid a gwasanaethau allweddol sy'n ymgymryd â swm sylweddol o weithgarwch caffael; a
- Phroses ymgynghori ffurfiol â rhanddeiliaid mewnol ac allanol a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2015.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Dylai'r trefniadau newydd wella prosesau caffael y Cyngor a helpu i sicrhau y cydymffurfir â rheoliadau mewnol ac allanol. Bydd fframwaith caffael cadarn yn helpu i sicrhau bod gwerth am arian.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y risg allweddol o ran y Strategaeth Gaffael yw sicrhau bod digon o adnoddau ar waith er mwyn galluogi darpariaeth effeithiol. I reoli hyn, mae Cynllun Gweithredu mwy manwl yn cael ei ddatblygu i nodi'r hyn sydd angen ei wneud, gan bwy ac erbyn pryd. Caiff hyn ei fonitro'n rheolaidd gan Bwyllgor Gwaith y Prosiect (Jamie Groves - Pennaeth Cyllid, Asedau a Thai) er mwyn sicrhau darpariaeth effeithiol.

O ran y CPR's, y risg allweddol fydd yr angen i newid arfer presennol wrth i ni symud oddi wrth y CPR's presennol i'r CPR's newydd. Caiff hyn ei reoli drwy raglen o ddigwyddiadau hyfforddi mewnol i godi ymwybyddiaeth a gwybodaeth, a thrwy gyfarfodydd rheolaidd rhwng y Tîm Caffael Corfforaethol a'r Penaethiaid Gwasanaeth (a'u timau rheoli) er mwyn sicrhau bod cefnogaeth briodol yn cael ei rhoi ar waith i gefnogi'r broses drawsnewid.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Adran 111, Deddf Llywodraeth Leol 1972